Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME COMMISSIONER

# TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl100

**Amseru:** Arferol

**Teitl: Digwyddiad Ymgysylltu Tregaron**

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Ymgysylltu**

**Crynodeb Gweithredol:**
Yn dilyn argymhellion yr HMIC yn 2017, cynigodd Carys Morgans, Pennaeth Staff y Comisiynydd, a'r Prif Gwnstabl Cynorthwyol Dros Dro Vicki Evans (Prif Arolygydd ar y pryd) ein bod yn datblygu prosiect ymgysylltu ar y cyd; er mwyn edrych yn benodol i weld a yw'r Timau Plismona yn y Gymdogaeth yn ymdrin â phethau sy'n bwysig i bobl yn eu hardaloedd. Cwestiwn cyffredinol y darn hwn o waith yw: "sut olwg sydd ar eich cymuned?" Y nod i gychwyn oedd y byddai'r prosiect ymgysylltu hwn yn ein galluogi i gynnal diwrnodau ymgysylltu cynhwysfawr i ymgynghori ag amrywiol gymunedau a grwpiau cymunedol, er mwyn nodi materion a phryderon plismona lleol penodol.

Y cynllun hirdymor yw cynnal prosiect treigl o ddiwrnodau ymgysylltu ledled ardal Dyfed-Powys. Y cynllun byrdymor yw treialu'r dull hwn mewn un gymuned yn Nyfed-Powys. Mae Tregaron wedi cael ei henwebu fel cymuned i'w threialu, ac mae hyn yn bennaf oherwydd gwybodaeth a ddarparwyd gan drigolion Tregaron drwy waith OpCynefin a wnaed gan dîm cyfathrebu corfforaethol Heddlu Dyfed-Powys, h.y. nad oedd preswylwyr Tregaron yn teimlo eu bod yn cael gwybod am faterion plismona lleol ac a oedd yr heddlu'n mynd i'r afael â nhw. Roedd y mwyafrif am gael gwybod mwy am blismona lleol.

Amlygwyd materion amrywiol drwy OpCynefin, ac nid oedd pob un yn gysylltiedig â gwasanaethau a ddarparwyd gan yr heddlu. Felly, y bwriad yw mabwysiadu dull ymgysylltu cydweithredol, a gwahoddir amryw o bartneriaid i fod yn rhan o'r diwrnod ymgysylltu a grybwyllir uchod.

**Argymhelliad:**
Treialu'r dull ymgysylltu cymunedol hwn yn Nhregaron, ac os yw'n llwyddiannus, ailgreu'r diwrnod mewn gwahanol gymunedau ledled Dyfed-Powys.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

**Llofnod:** Dafydd Llywelyn **Dyddiad:** 17/1/2019